# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2024-2025

# Cadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno, ar ran y Corff Llywodraethol, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni. Fel Corff Llywodraethol, mae'n rhaid i ni ddarparu gwybodaeth benodol i chi, a bennir gan ddeddfwriaeth, mewn perthynas â'r ysgol.

Diwedd mis Medi diwethaf 2024 cafofdd y'r ysgol ymweliad diwethaf o Estyn a daeth yr ysgol allan o fesurau arbennig, trwy gwaith caled Miss Pugh, yr Uwch Dîm Arwain, a holl gefnogaeth a gwaith caled di-ddiwedd yr holl staff sydd gennym yn Ysgol Gymraeg Pen Y Garth – diolch yn fawr iawn i bawb.

Mae'n hyfryd i weld y plant yn parhau i gael cyfleodd i ymuno mewn chwaraeon, Eisteddfodau yr Urdd a cyfle i berfformio'n lleol yng Gŵyl Fach Y Fro. Rydym am i'r ysgol fod yn esiampl ac yn rhan flaenllaw o addysg Gymraeg yn yr ardal a tu hwnt.

Cafwyd tipyn o lwyddiant eleni eto mewn sawl maes gwahanol – yr Eisteddfod, gwaith Celf a Chrefft, Coginio, Dawnsio a chwaraeon i enwi ond ychydig.

Byddwn ni, y Llywodraethwyr, yn parhau i weithio a chefnogi'r staff i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd hapus a diogel i'r holl ddisgyblion, gyda chyfleoedd i bob disgybl gyflawni eu llawn potensial – boed yn academaidd, yn gerddorol, ym myd chwaraeon neu fel arall.

**Rhian Griffiths – Cadeirydd**

# Ein Gweledigaeth

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth yw bod pawb yn teimlo'n hapus ac yn bwysig yn yr ysgol. Mae sicrhau ein bod yn dathlu ein gilydd yn bwysig i ni, rydym yn dilyn y dywediad "Derbyn beth sy'n debyg...Dathlu beth sy'n wahanol". Rydym yn rhoi ffocws cryf ar berthnasoedd yn yr ysgol a chredwn yn gryf bod perthynas yn sail i bopeth rydym yn gwneud.

Mae ein disgwyliadau ni yn uchel o bob plentyn a rydym yn anelu at y safonau uchaf ym mhopeth rydym yn gwneud.

Mae'r arweinwyr Cwricwlwm yn gweithio'n galed i gynllunio profiadau, gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr a diddorol i'n disgyblion. Mae gweithgareddau all-gyrsiol hefyd yn bwysig iawn i ni. Mae ein staff a disgyblion wedi profi cryn dipyn o lwyddiant ar y caeau Chwaraeon ac ar lwyfan yr Eisteddfod gyda Dawns, Canu a Chelf.

Ein bwriad fel ysgol yw meithrin a datblygu pob disgybl fel unigolion hyderus sy'n falch o'u hysgol, eu hiaith a'u diwylliant. Annogwn ein disgyblion i fod yn gwrtais, yn barchus ac yn ddiolchgar ar bob achlysur.

Mae lles disgyblion a staff yn bwysig iawn ym Mhen y Garth. Clustnodwn amser ar gyfer sicrhau bod lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth. Mae gennym ddiwrnod lles bob hanner tymor ble mae'r disgyblion a staff yn dysgu ac yn datblygu sgiliau hanfodol a hefyd yn datblygu'r berthynas rhyngddynt hyd yn oed yn fwy.

# Ein Gwerthoedd

Yn ystod tymor y gwanwyn 2023, pleidleisiodd disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr dros ba werthoedd oedd yn bwysig i ni yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth. Ein gwerthoedd newydd yw '**Parch**', '**Cymreictod**' a '**Hapusrwydd**'.

# Llywodraethwyr

Mae gan Gorff Llywodraethol Ysgol Pen-y-Garth gyfrifoldeb i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol, gan weithredu o fewn y fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth a bod polisïau'r Awdurdod Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu dilyn. Mae'r Corff Llywodraethol, y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio mewn partneriaeth agos i ddarparu'r addysg orau posib i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Pen y Garth. Maent yn canolbwyntio ar safonau uchel o addysgu a dysgu a safon uchel o les ar gyfer y plant a staff. Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am ailymweld a mabwysiadu polisïau a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod ddwywaith y tymor ac mae yna hefyd nifer o is-bwyllgorau sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r is-bwyllgorau hyn wedi'u sefydlu'n strategol i gefnogi anghenion yr ysgol. Mae agenda benodol ar gyfer pob cyfarfod, ac mae gan rai pwyllgorau gyfrifoldebau dirprwyedig.

Mrs Rhian Griffiths (Cadeirydd)

Mr Geraint Scott (Is Gadeirydd)

Miss Becca Pugh - Pennaeth

Mrs Leah Evans

Ms Jodie Evans

Mrs Llinos Misra

Mrs Cath Bliss

Mrs Sally Craven

Mr Richard Grigg

Mr Rhys Angell Jones

Mrs Samantha Sampson

Mr Richard Parsons

Miss Lynette James

Mr Dewi Gaylard

| Cwrdd o leiaf unwaith y tymor | Cwrdd pan bo angen |
|---|---|
| Pwyllgor Cyllid<br>Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau<br>Pwyllgor Iechyd a Diogelwch<br>Pwyllgor Rheoli Perfformiad y Pennaeth<br>Pwyllgor Lles a Diogelu | Pwyllgor Disgyblu Plant a Diarddeliadau<br>Pwyllgor Diswyddo Staff<br>Pwyllgor Cwynion<br>Pwyllgor Apel<br>Pwyllgor Staffio |
| **Llywodraethwyr Penodedig** | |
| Rhian Griffiths (Rheoli Perfformiad y Pennaeth)<br>Llinos Misra (Diogelu ac ADY) | |

**Pwyllgor Cyllid**

Mae'r pwyllgor hwn yn argymell cyllideb ariannol bob blwyddyn'r i'r Corff Llywodraethol Llawn i'w chymeradwyo cyn ei chyflwyno i'r AALl. Mae hefyd yn derbyn ac yn ystyried o leiaf unwaith y tymor, adroddiadau ariannol sy'n amlinellu cyfrif incwm a gwariant yr ysgol, i sicrhau y cedwir cyllideb gytbwys, ac i gynorthwyo i ganfod ffyrdd o gydbwyso'r galw ar adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael, ac adrodd ar hynny i'r Corff Llywodraethol.

**Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau**

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ysgol. Mae hyn yn cynnwys cynllun datblygu'r ysgol, polisïau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, targedau disgyblion, a pherfformiad. Gwahoddir aelodau'r pwyllgor i'r ysgol i gymryd rhan mewn teithiau dysgu ochr yn ochr â'r Tîm Arwain.

**Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch a thir yr ysgol gan gynnwys diogelwch a thiroedd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r safle yn rheolaidd i nodi gwaith cynnal a chadw hanfodol.

**Pwyllgor Lles a Diogelu**

Mae'r pwyllgor hwn yn trafod llesiant plant a staff. Mae'r trafodaethau hyn hefyd yn cynnwys trafodaethau presenoldeb a thrafodaethau ymddygiad. Trafodir anghenion dysgu ychwanegol yn y cyfarfodydd hyn hefyd.

# Amgylchedd yr Ysgol

Rydym wedi buddsoddi arian yn ddiweddar i wella adeilad a safle'r ysgol. Rydym wedi peintio nifer o ardaloedd o fewn yr ysgol, gosod lloriau newydd i'r dosbarthiadau meithrin a derbyn, gosod drysau newydd i 3 dosbarth a'r neuadd, gosod drysau tân newydd i fyny'r grisiau a gosod to newydd i adeilad cyfnod allweddol 2. Mae mynedfa a derbynfa newydd gan yr ysgol hefyd. Rydym hefyd wedi gosod giatiau newydd a ffens newydd o amgylch rhan helaeth o'r iard. Dros gwyliau'r haf, gosodwyd to newydd i ardal y gegin.

Mae'r ddarpariaeth toiledau ar gyfer yr holl ddisgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol 5 bloc toiledau ar gyfer disgyblion (Meithrin, Derbyn, B1 a 2, B3-5 a B6). Mae gan yr ysgol doiledau anabl. Mae'r rhain yn cael eu glanhau'n ddyddiol gan Glanhawyr y Fro.

# 2022 Estyn

Nododd Estyn ym mis Tachwedd 2022 bod angen mesurau arbennig ar ysgol. Ym mis Hydref 2024, yn dilyn 3 ymweliad monitro, penderfynodd Estyn bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion a bod dim angen mesurau arbennig ar yr ysgol bellach.

**Argymhellion Estyn:**

A1 Cryfhau'r arweinyddiaeth er mwyn gweithredu'n fwy strategol

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella

A3 Darparu gweithgareddau sy'n gosod lefel her briodol fel gall bob disgybl gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

A4 Darparu gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n cefnogi disgyblion hŷn i ddatblygu a chymwhyso eu medrau yn fwriadus dros amser

A5 Sicrhau bod adborth gan athrawon ar waith disgyblion yn bwrpasol, a darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith

Bydd yr ysgol yn llunio Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

# Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb o fewn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth. Mae'r Corff Llywodraethol, y Pennaeth, staff a disgyblion yn credu'n gryf mewn hyrwyddo'r cysyniad o gyfle cyfartal i bob unigolyn. Mae pob math o ragfarn a gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran yn cael eu gwrthwynebu. Os ydych yn credu, fel rhieni/gofalwyr, fod eich plentyn yn dioddef o wahaniaethu ar sail un o'r uchod, cysylltwch â'r Pennaeth ar unwaith.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y Llywodraethwr â chyfrifoldeb am ADY am y flwyddyn academaidd hon oedd Mrs Llinos Misra. Miss Willimas oedd y Cydlynydd ADY. Mae'r Llywodraethwyr yn derbyn diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes hwn ym mhob cyfarfod o'r Corff Llywodraethol Llawn fel rhan o Adroddiad y Pennaeth. Mae'r ysgol yn dilyn y Ddeddf ADY ar gyfer plant ag ADY ac mae'r gefnogaeth a roddir ar sawl ffurf. Mae'r Cydlynydd ADY yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, yna'n cynllunio ac yn cynghori aelodau eraill o'r staff pa ymyriadau sydd eu hangen. Mae athrawon dosbarth yn addasu gwaith ar gyfer unigolion/grwpiau ac mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth addas. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol - megis y Seicolegydd Addysg a'r Gwasanaeth Ymgysylltu. Mae Miss Williams yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant Trauma Informed Schools UK a hyfforddiant ADY.

# Cwricwlwm

Mae'n amser cyffrous yn addysg Cymru ac rydym wedi cynllunio Cwricwlwm sy'n seiliedig ar beth sy'n bwysig i'n 'Cynefin' ni ym Mhen Y Garth. Cyfnod llawn bwrlwm lle rydym wedi cydweithio a phenderfynu beth ddylai ein disgyblion ddysgu, sut y dylen nhw ddysgu a pham rydyn ni'n cynllunio'r hyn sy'n cael ei haddysgu yn ein dosbarthiadau.

Ein dyhead ym Mhen Y Garth yw i bawb  wireddu'r pedwar diben.

**1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

**2. Cyfrannwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan yn lawn mewn bywyd a gwaith.

**3. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i chwarae eu rhan yng Nghymru a'r byd

**4. Unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r 4 diben yn rhan annatod o'n proses gynllunio ac yn sail i'n gweledigaeth newydd. Trwy themâu trawsgwricwlaidd, profiadau dilys ac arddulliau addysgu amrywiol, mae disgyblion yn cael eu meithrin i ymgorffori'r 4 diben ar gyfer dysgu gydol oes. Mae addysgu a dysgu yn cwmpasu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad trwy themâu ac ymholiadau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r egwyddorion cynnydd yn sail i'r holl gynllunio.

**Mae'r themâu trawsgwricwlaidd:**

• Addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb (RSE).
• Hawliau Dynol
• Amrywiaeth
• Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
• Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

**a'r fframweithiau trawsgwricwlaidd o**

• Llythrennedd
• Rhifedd
• Cymhwysedd Digidol

**yn cael eu haddysgu drwy bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad**

Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Y Dyniaethau

Iechyd a Lles

Y Celfyddydau Mynegiannol

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

# Llwyddiannau 2023-2024

- Penodi staff newydd i'r ysgol
- Cystadlu mewn nifer o gystadlaethau chwaraeon
- Cystadlu yn yr Eisteddfod – Côr, partïon llefaru, parti unsain, cystadleuwyr unigol, dawns greadigol, cogurdd a chystadlaethau celf a chrefft.
- Cyngerdd Pigion Pen y Garth
- Cynnal 2 Eisteddfod ysgol – Canu a Llefaru, Gwaith a Chadeirio'r Bardd
- Dathlu 'Wythnos Gymreictod'
- Dathlu Dydd Gŵyl Dewi
- Cyfnod Allweddol 2 wedi canu carolau ym Mhenarth
- Perfformiodd côr blwyddyn 5 a 6 yn Ninas Powys
- Ymweliadau Addysgol o'r Orsaf Dân leol
- Cynnal nosweithiau cyfarfod yr athrawon ar gyfer pob dosbarth a phrynhawn agored ar gyfer rhieni a gofalwyr meithrin newydd
- Nosweithiau rhieni a gofalwyr
- Mynychodd Blwyddyn 6 'Crucial Crew'
- Teithiau addysgiadol
- Ymweliadau gwyddoniaeth a thechnoleg i flynyddoedd 5 a 6
- Sesiynau pontio i bob disgybl
- Sesiwn urddas misglwyf ar gyfer blwyddyn 5 a 6
- Perfformiwyd yng Ngŵyl Fach y Fro
- 4 diwrnod mabolgampau yn ystod tymor yr haf
- Ffair 'Diwydiant a Busnes' Blwyddyn 5 a 6
- Nifer helaeth o glybiau allgyrsiol ar gael i'r disgyblion
- Sesiynau wythnosol Cylch Ti a Fi
- Cylch Meithrin Pen y Garth ar y safle
- Sesiynau Cymraeg i rieni
- Bore coffi MacMillan
- Gwasanaethau Dosbarth i rieni
- Cyngherddau Nadolig
- Llangrannog a Glan-llyn
- Cynnal bore agored
- Nifer fawr o ysgolion wedi bod i arsylwi ar arferion da Pen y Garth
- Pen y Garth wedi trefnu a chynnal twrnamaint Pêl-droed i ysgolion y Clwstwr Cymraeg

# Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

- Disgos
- Gweithgareddau Pasg
- Ffair Haf a Ffair Nadolig
- Siop gwisg ysgol ail law
- Noson gwis
- Noson gerddoriaeth Gymraeg
- Cefnogi Mabolgampau

# Dyddiadau'r tymor 2025-2026

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/School-Term-Dates.aspx#Tymhorau2026

# Amseroedd y Dydd

| | |
|---|---|
| **Diwrnod ysgol yn dechrau:**<br>**School day starts:** | 9yb / 9am |
| **Egwyl bore Cyfnod Sylfaen:**<br>**Foundation Phase morning break:** | 10.15yb – 10.30yb<br>10.15am – 10.30am |
| **Egwyl bore Cyfnod Allweddol 2:**<br>**Key Stage 2 morning break:** | 10.35yb – 10.50yb<br>10.35am – 10.50am |
| **Cinio Cyfnod Sylfaen:**<br>**Foundation Phase Lunch:** | 11.45yb – 12.45yp<br>11.45am – 12.45pm |
| **Cinio Cyfnod Allweddol 2:**<br>**Key Stage 2 Lunch:** | 12.15yp – 1.15yp<br>12.15pm – 1.15pm |
| **Egwyl prynhawn Cyfnod Sylfaen:**<br>**Foundation Phase afternoon break:** | 1.55yp – 2.10yp<br>1.55pm – 2.10pm |
| **Egwyl prynhawn Cyfnod Allweddol 2:**<br>**Key Stage 2 afternoon break:** | 2.15yp – 2.30yp<br>2.15pm – 2.30pm |

| | |
|---|---|
| **Meithrin Bore:**<br>**Morning Nursery:** | 9yb – 11.30yb<br>9am – 11.30am |
| **Meithrin Prynhawn:**<br>**Afternoon Nursery:** | 1yp – 3.30yp<br>1pm – 3.30pm |

# Nifer ar y gofrestr Medi 2024

| Meithrin | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 44 | 43 | 38 | 40 | 38 | 47 | 38 | 43 |

# Staffio 2024-2025

| | |
|---|---|
| Kelly Blake – Rheolwr Busnes | Sally Craven – Swyddfa |
| Becca Pugh – Pennaeth | Sian Jeffery – Cynorthwyydd |
| Sioned Jones – Dirprwy | Kyle Roberts – Cynorthwyydd |
| Cath Bliss – Pennaeth Cynorthwyol | Sian Hillman – Cynorthwyydd |
| Tomi Turner – Pennaeth Cynorthwyol | Sadie De Claire – Cynorthwyydd |
| Beth Williams – ALNCo | Kath Lawday – Cynorthwyydd |
| Lowri Griffiths - Athro | Bev Karatas – Cynorthwyydd |
| Delyth Vaughan – Athro | Haf Smart – Cynorthwyydd |
| Cadi Dafydd – Athro (gadael 31/8/25) | Amie Humphries – Cynorthwyydd |
| Leri Richards – Athro (gadael 31/8/25) | Ceri Morgan - Cynorthwyydd |
| Mari Jacks – Athro | Angharad Stevenson- Cynorthwyydd (gadael 31/8/25) |
| Lucy Clarke Athro (gadael 31/12/24) | Cathryn Rowlands – Athro (gadael 31/8/25) |
| Marc Hughes – Athro (gadael 31/10/24) | Alaw Lloyd Cynorthwyydd (gadael 31/8/25) |
| Debbie Shuffley - Athro | Nia Smith – Athro (gadael 31/8/25) |
| Emma Watt – Athro (gadael Mehefin 2025) | Jo Buckland - Athro |
| Michaela Halls - Athro | Laura Jones - Athro |

# Presenoldeb 2024-2025

| Year Group | Present R/C: Marks (%) |
|---|---|
| Year 1 (2024/2025) | 95.7% |
| Year 2 (2024/2025) | 95.7% |
| Year 3 (2024/2025) | 92% |
| Year 4 (2024/2025) | 94.7% |
| Year 5 (2024/2025) | 94.4% |
| Year 6 (2024/2025) | 92.9% |
| Year N1 (2024/2025) | 89.8% |
| Year N2 (2024/2025) | 94.5% |
| Year R (2024/2025) | 95.3% |

Ysgol Gyfan: 94.3%

# Cyllid

| 17 | Cost Centre | Cost Centre Desc | Detail 2 | Detail 2 Leve | Detail | Detail Description | Budget | Actual | Variance |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | 101304 | Ysgol Gymraeg Pen Y Garth Penarth | | | | | | | |
| 19 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | | | | | |
| 20 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10000 | Full Time Teachers | 1,051,656.00 | 1,056,875.69 | -5,219.69 |
| 21 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10005 | Non Statemented S | 26,688.00 | 27,440.01 | -752.01 |
| 22 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10007 | Supply Teachers | 3,000.00 | 336.17 | 2,663.83 |
| 23 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10008 | Long Term Supply | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 24 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10011 | Learning Support | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 25 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10012 | Learning Support | 51,231.00 | 48,419.52 | 2,811.48 |
| 26 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10024 | Midday Supervisor | 10,117.00 | 10,047.13 | 69.87 |
| 27 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10026 | Caretakers | 31,194.00 | 30,412.85 | 781.15 |
| 28 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10036 | Maternity Pay | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 29 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10038 | Clerks To Governor | 1,015.00 | 1,036.24 | -21.24 |
| 30 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10056 | WG - LAEG Equity | 18,078.00 | 22,314.17 | -4,236.17 |
| 31 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10065 | PDG LAC Teaching | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 32 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10069 | Lettings Admin Off | 4,000.00 | 4,907.75 | -907.75 |
| 33 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10070 | WG - LAEG Reform | 21,640.00 | 21,945.84 | -305.84 |
| 34 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10076 | WG - LAEG Schoo | 40,660.00 | 40,667.77 | -7.77 |
| 35 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10094 | Teaching accelerat | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 36 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10095 | Non-teach accelera | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 37 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10134 | Breakfast Club Ass | 12,704.00 | 13,203.60 | -499.60 |
| 38 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10138 | WG - LAEG Reform | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 39 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10200 | Management | 0.00 | 121.24 | -121.24 |
| 40 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10201 | Admin.& Clerical G | 58,510.00 | 57,408.09 | 1,101.91 |
| 41 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10317 | Maternity Pay Non- | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 42 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 10503 | WG - LAEG Schoo | 154,190.00 | 155,252.66 | -1,062.66 |
| 43 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17094 | Agency teaching a | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 44 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17095 | Agency non-teach | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 45 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17100 | Mainstream Teache | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 46 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17107 | Supply Teachers - | 13,000.00 | 19,693.57 | -6,693.57 |
| 47 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17108 | Long Term Supply | 0.00 | 238.18 | -238.18 |
| 48 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17110 | Long Term Supply | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 49 | 101304 | Ysgol Gymraeg | B0001 | Employees | 17112 | LSA - Agency Staff | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

# Law yn Llaw

# Llwyddiant a Ddaw